

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau)

Y cefndir

Ar 7 Rhagfyr 2017, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau) sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

Ar 12 Rhagfyr 2017, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ('y Pwyllgor' a'r Pwyllgor lechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'w drafod. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, gosododd y Pwyllgor Busnes y dyddiad 22 Chwefror 2018 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Mae dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Chwefror 2018, yn gofyn i'r Cynulliad gydsynio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil (fel y'u hamlinellir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol).

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae paragraffau 4 i 6 o'r Memorandwm yn crynhoi'r Bil a'i amcanion polisi. Mae paragraffau 7 i 11 yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad â nhw. Mae paragraff 12 yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y ffaith bod y darpariaethau yn cael eu gwneud drwy Fil y DU, yn hytrach na thrwy deddfwriaeth y Cynulliad.

Y darpariaethau yn y Bil y gwneir cais am gydsyniad â nhw

Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 1 i 6 y Bil oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y maent yn ymwneud â (i) gwasanaethau tân ac achub, (ii) darparu gwasanaethau iechyd, ac (iii) atal, trin a lliniaru clefydau o dan baragraffau 7 a 9 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.



Yn gryno, mae'r Bil –

- yn creu fersiwn waethygedig newydd o'r drosedd bresennol o ymosodiad cyffredin neu guro pan fo'n cael ei chyflawni yn erbyn gweithiwr y gwasanaethau brys gyda chosb uchaf o 12 mis o garchar;
- yn creu ffactor gwaethybol ar gyfer ymosodiadau eraill a throeddau cysylltiedig yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau brys, fel ABH, GBH a dynladdiad;
- yn ymestyn pwerau'r heddlu i gymryd samplau gwaed gyda chydsyniad, a samplau heb fod o natur bersonol heb gydsyniad, oddi wrth unigolion sy'n ymosod ar weithwyr y gwasanaethau brys a phan fo sail resymol dros gredu bod y gweithiwr gwasanaethau brys wedi bod yn agored i'r perygl o drosglwyddiad clefyd heintus.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn

Mae paragraff 12 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Ymosodiadau ar Weithwyr y Gwasanaethau Brys (Troseddau), yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Cynulliad. Mae'n nodi ei bod "yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil y DU hwn am resymau amseru a chydlynid ac yn dod i'r casgliad, "o ran gweithio mewn ffordd gydlynol yn hyn o beth, bernir mai deddfu drwy gyfrwng Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r ffordd orau o symud y mater hwn yn ei flaen".

Ystyriaeth a chasgliad y Pwyllgor

Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2018. Rydym yn nodi'r darpariaethau y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Cynulliad, ac yn seiliedig ar y rhain, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno â'r Cynnig.

Ar fater ehangach, rydym yn nodi mai un o amcanion polisi allweddol y Mesur yw gwella diogelwch i weithwyr y gwasanaethau brys drwy gadarnhau'r gyfraith pan fo troseddau penodol yn cael eu cyflawni yn eu herbyn. Er ein bod yn cefnogi'r amcan hwn yn llawn, rydym yn credu bod mynd i'r afael â thrais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn gweithwyr y gwasanaethau brys yn dibynnu yn y pen draw ar barodrwydd a gallu Gwasanaeth Erlyn y Goron i erlyn troseddwyd.

